Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board

MEYSYDD BLAENORIAETHOL DEMENTIA:

# Ymrwymiad Cymunedol

**Gwrando ar ein cymunedau a'u cynnwys.**

**Datblygu ein cymunedau a'u gwneud yn fwy ystyriol o ddementia.**

**Rydyn ni eisiau ymuno gyda'n cymunedau i ddeall eu profiadau a helpu i greu datrysiadau gyda'n gilydd i'r heriau y maen nhw'n eu hwynebu.**



## BETH SY'N BWYSIG I BOBL Â DEMENTIA?

Mae pobl â dementia eisiau gallu byw yn dda yn eu cymunedau.

Dywedon nhw wrthym eu bod nhw eisiau mynd i weithgareddau a gwneud y pethau roedden nhw wastad wedi'u gwneud, cael cyfle i 'fod yn fi o hyd'.

"Mae angen i ni adeiladu cymunedau sy'n becsol."

## BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD:

Rydyn ni eisiau gwrando ar ein cymunedau i'w cefnogi i ddatblygu lleoedd sy'n ystyriol o ddementia.

**Ein nod yw gwneud hyn drwy:**

- Gwrando ar bobl a'u grymuso i ysgogi newidiadau cadarnhaol yn eu cymunedau eu hunain.
- Cynnig cyfleoedd i gymunedau siapio gwasanaethau.

**Ein bwriad yw:**

1. Parhau i gefnogi'r ymarfer gwrando.
2. Oedi i fyfyrio a dysgu o ymarfer y Gilfach Goch a Phontypridd.
3. Cwblhau gweithdy sy'n edrych ar:
   a. Camau gweithredu o dan safonau eraill.
   b. Mentrau cymunedol.
   c. Asedau cymunedol.
4. Sicrhau adborth priodol i'r rhai sy'n ymwneud â gweithredu'r ffrwd waith hon gyda ffocws penodol ar bobl yn ein cymunedau.



## DYWEDODD POBL

**"Mae angen i ni edrych ar gymunedau yn eu cyfanrwydd ac nid dim ond gwthio pobl i mewn i focsys o dan labeli nad ydyn nhw eu heisiau."**

## PA WAHANIAETH FYDD HYN YN EI WNEUD?

- Bydd cymunedau'n gallu nodi'r hyn sydd ei angen arnynt i wella'r profiad i bobl sy'n byw gyda dementia yno a bod yn rhan o'r ateb i ddiwallu eu hanghenion.